

Llais y Llan Chwefror 2017

Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf – 25 Mawrth 2017

Cyhoeddwyd gan Llanpumsaint Cyfnewid Gwybodaeth Gymunedol

www.llanpumsaint.org.uk info@llanpumsaint.org.uk

Beth sy' Mlaen yn y Pentref yn y misoedd nesaf

Noson Stêc y Rheilffordd pob Nos Fercher 01267253643

Noson Cinio Rhost y Rheilffordd pob Nos Iau 01267253643

Bowlio pob Nos Lun a Nos Iau 7.30 – 9.30

Cadw'n Heini 50+ pob Dydd Iau 2.00 – 3.00 Neuadd Bronwydd

Chwefror 7 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Chwefror 8 Dydd Mercher 6.00 Clwb Swper Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643

Chwefror 11 Dydd Sadwrn 10.00 Cerdded Llanpumsaint, Nebo, Bronwydd

Chwefror 21 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd

Chwefror 25 Dydd Sadwrn 11.00 CCB Cymdeithas Rhandiroedd

Chwefror 26 Dydd Sul 1.45 Cymdeithas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd

Chwefror 26 Nos Sul 8.00 Cwis Hollybrook

Chwefror 27 Dydd Llun 2.00 Clwb 60+ Neuadd Bronwydd

Chwefror 28 Nos Sadwrn 7.30 CCB Llanpumsaint Heartbeat Neuadd Goffa

Mawrth 2 Nos Iau 8.00 CCB Llais y Llan Neuadd Goffa

Mawrth 7 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Mawrth 8 Dydd Mercher 11.00 – 4.00 Clinig Traed Neuadd Goffa

Mawrth 8 Dydd Mercher 6.00 Clwb Swper Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643

Mawrth 11 Dydd Sadwrn 10.00 Cerdded Carmarthen - cwrdd yng nghanolfan hamdden

Mawrth 21 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd

Mawrth 23 Nos Iau 7.00 'Rotary' Cwis Carmarthen Football Club

Mawrth 26 Dydd Sul 1.45 Cymdeithas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd

Mawrth 26 Nos Sul 8.00 Cwis Hollybrook

Mawrth 27 Dydd Llun 2.00 Clwb 60+ Neuadd Bronwydd

Ebrill 4 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Ebrill 12 Dydd Mercher 6.00 Clwb Swper Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643

Ebrill 18 Nos Fawrth 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen, Tafarn y Rheilffordd

April 19 Dydd Mercher 2.00 Clwb 60+ Taith Royal Mint

Ebrill 19 Dydd Mercher 11.00 – 4.00 Clinig Traed Neuadd Goffa

Ebrill 23 Dydd Sul 1.45 Cymdeuthas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd

Ebrill 23 Nos Sul 8.00 Cwis Hollybrook

Ebrill 24 Dydd Llun 2.00 Clwb 60+ Neuadd Bronwydd

Mai 6 Dydd Sadwrn Diwrnod Hwyl

Mai 22 Dydd Mercher 2.00 Clwb 60+ Taith Royal Mint

Mehedin 11 Dydd Sadwrn 11.00 Dyddiad i'ch Dyddiadur Esgair

*Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonhenri
I logi'r Neuadd Goffa, ffoniwch Derick Lock 01267253524*

Gwasanaeth Swyddfa Bost - gyferbyn â Thafarn y Rheilffordd ar ddydd Mawrth 2.00 -4.00 a dydd Gwener 1.00-3.00 y.h.

CYLCH MEITHRIN BRONWYDD

Os hoffech fwy o wybodaeth am y Cylch Meithrin , cysylltwch a ni ar 07929 431652 (Verona).

Cylch Meithrin (Bore Mawrth, Mercher, Iau a Gwener 9.15 yb – 12.00 h.d.)

Cylch Ti a Fi –Dydd Gwener 10.00yb – 12.00 hd

CPR a Defibrillator Hyfforddiant Noson Ionawr 25

Cafwyd noson ddiddorol ar y 18fed o Ionawr pan ddaeth Anthony Hamilton-Shaw o'r elusen Cariad i'n hyfforddi ar sut i ddefnyddio defibrillator fel sydd ar wal y neuadd. Daeth rhyw 35-40 o bobl o bob oed ynghyd ac roedd yr hyfforddwr yn wybodus ac yn ddifyr ei ffordd. Atebodd nifer o gwestiynau wrth y gynulleidfa a cawson ni i gyd gyfle i ddefnyddio'r peiriant. Fe wnaeth e ein sicrhau na allwn ni niweidio'r claf ond os na wnawn ni rywbeth, marw fydd y person. Mae'r peiriant ei hun yn rhoi cyfarwyddiadau ac ni fydd yn rhoi sioc os na fydd rhaid.

Y bwriad yw i gael 3 neu 4 peiriant o gwmpas y pentre fel ein bod yn gallu eu cyrraedd yn glou gan fod yr amser i adfywio rhywun yn fyr iawn. Dyna pam mae cymaint yn marw cyn i'r ambiwlans gyrraedd. Cafwyd ffeithiau diddorol. Yn Seattle yn America, os byddai eich calon yn stopo curo y tu fâs i ysbyty, 7% o siawns oedd gennych o oroesi felly aethpwyd ati i roi defibrillators mewn llawer o fannau cyhoeddus. Mae rhyw 70% o'r boblogaeth wedi derbyn hyfforddiant ar sut i'w defnyddio a bellach mae'r siawns o oroesi wedi codi i 67%! Yng Nghymru, dim ond 3% o siawns sydd y gwnewch chi fyw felly dyna nod i ni anelu ati. Cafwyd paned ar ddiwedd y noson a diolch i bawb fu'n trefnu'r digwyddiad. Da chi, ewch i gael hyfforddiant tro nesa y cynhelir noson o'r fath. Falle taw chi fydd yn achub bywyd eich cymydog!

D = Danger. Edrychwch o'ch cwmpas am unrhyw beryg.

R = Response. A yw'r claf yn ymateb i'ch llais neu gyffyrddiad ysgafn?

S = Shout. Gwaeddwch am help.

A = Airway. Gofalwch nad oes dim yn atal iddynt anadlu.

B = Breathing. Rhowch eich boch yn eu hymyl i deimlo am anadl.

C = Cylchrediad - pwyswch yn galed ac yn gyson ar y frest. Eleri Morris

Cyngor Cymuned Llanpumsaint

Phillip Jones yw'r clerc a gellir cysylltu ag e' ar 01267 253512 neu clerc@llanpumsaint.org.uk
<mailto:clerc@llanpumsaint.org.uk>, <http://llanpumsaint.org.uk/communitycouncil/>

Cais Cynllunio – Llyn Fach Troed yr Aur

Llyfrgell Deithiol - Bob 4 wythnos, fl gael ffôn 01267 224830

Heddlu

Martin Dickenson 8046, Swyddog Cymorth Cymunedol, Heddlu Dyfed Powys, Gorsaf Yr Heddlu Carmarthen Police Station 101 Ex 25344 / 25343 martin.dickenson@dyfed-powys.pnn.police.uk

Nebo Chapel

Am fwy o wybodaeth am yr uchod, gellir cysylltu a Meinir Jones, ysgrifenyddes y Capel ar 253532.

Capel y Bedyddwyr Caersalem, Llanpumsaint

“Cyhoeddwn Iesu Grist yn Waredwr ac yn Arglwydd”

"O, deuwch ac addolwn..." Gwasanaeth carolau dwy-ieithog dan ofal y Parch Martin Williams

Rhagfyr 18 am 2.30pm

Rhifau Cyswllt Mrs Eleri Morris 01267 253895

Capel Ffynnonhenri

Dyma fanylion am y gwasanaethau am fisoedd Chwefror, Mawrth ac Ebrill 2017

Chwefror 26 2017 Gwasanaeth am 2.00 o'r gloch Mr Wyn Maskell

Mawrth 5 2017 Gwasanaeth Undebol yn Hermon am 2.00 o'r gloch

Mawrth 19 2017 Cymundeb am 2.00 o'r gloch Parch Huw George

Ebrill 16 2017 Sul y Pasg, Cymundeb yng Nglawddcoch am 10.30 o'r gloch,
Parch Gareth Morris

Ebrill 30 2017 Gwasanaeth am 2.00 o'r gloch Parch Huw George

Os am fanylion pellach cysylltwch a Danny Davies , Trysorydd ar 01267 253418 neu Gwyn Nicholas, Ysgrifennydd ar 01267 253686

Newyddion Eglwys y Plwyf

Mae'r gwasanaethau'n cael eu cynnal fel a ganlyn:-

Sul cyntaf o'r mis 8.30 y.b. Cymun Bendigaidd

Ail Sul o'r mis 11.00 y.b. Cymun Bendigaidd

Trydydd Sul o'r mis 11.00 y.b. Boreol Weddi

Pedwerydd Sul o'r mis 11.00 y.b. Cymun Bendigaidd

Os bydd pum Sul yn y mis cynhelir gwasanaeth o Gymun Bendigaidd gyda Eglwysi Llanllawddog a Sant Celynin yn eu tro. Gwelir manylion o'r gwasanaethau ar yr hysbysfwrdd tu fâs i ddrws y festri. Hefyd mae pob gwybodaeth ar ein tudalen ar wefan Gymunedol Gyfnewidiol Llanpumsaint.

Diolch o galon i bawb a'n cefnogodd ar ein stonddin yn Ffair Nadolig Pwyllgor Rhieni ac Athrawon, Ysgol Llanpumsaint. Codwyd swm sylweddol tuag at goffrau'r Eglwys.

Yn y dyfodol agos fe fyddwn yn chwilio am rywun i gymeryd gofal o'r fynwent. Golyga hyn dorri'r porfa tua 8 gwaith y flwyddyn ac os oes unrhyw un a diddordeb a fyddech cystal a chysylltu a Marice Sherlock ar 01267 253195 i gael rhagor o wybodaeth. Diolch yn fawr iawn i Mathew Jameson am ei with trylwyr dros y blynyddoedd.

Dyddiad i'ch Dyddiadur

Ar ddydd Sul Mehefin 11 2017 ymwelwch a chymeryd rhan mewn Dydd Agored y Diwydiant Ffermio lle gwelir ffermydd yn agor eu drysau a chroesawu ymwelwyr. Am 11.00 y bore ar y dyddiad uchod bydd Martin, Nicky, Carwyn a Ceri yn croesawu pawb i'r Esgair yn Llanpumsaint i ymweld a'r fferm, gweld sut y maent yn cadw'r anifeiliad, beth sydd yn cael ei gynhyrchu a hefyd sut mae gwyddoniaeth yn effeithio ar amaethyddiaeth. Cewch hefyd baned a chacen.

Mae mynediad am ddim ond os hoffai unrhyw un roi cyfraniad tuag "Parkinson, UK" fe'i derbynnir gyda diolch. Os am ragor o wybodaeth cysylltwch a www.farmsunday.org

Gwefan Gymunedol Llanpumsaint.

Cynhelir ein Cyfarfod Blynnyddol ar nos Iau Mawrth 2 2017 a 8.00 yr hwyr yn y Neuadd Goffa. Croeso i bawb.

Help!!

Argraffir Llais y Pentref bob dau fis ac y mae y rhan fwyaf o drigolion yr ardal yn ei dderbyn drwy eu drysau. Fel y gallwch ddychmygu mae llawer o waith yn cael ei wneud i argraffu a dosbarthu pob argraffiad. Mae yn costio tua £130 pob tro – cost yr inc sydd fwyaf a chymerir bron 4 awr i argraffu rhyw 330 o gopiau.

Byddem yn ddiolchgar am unrhyw gymorth ac os oes gennych amser sbâr cysylltwch a Carolyn Smethhurst ar 01267 253308. Mae eisiau help i gyfieithu, argraffu a dosbarthu i bob tŷ.

Os hoffech gael eich copi drwy e-bost cysylltwch a Carolyn ar info@llanpumsaint.org.uk

Byddai hyn yn arbed 40 ceiniog y copi – cofiwch bod pob ceiniog yn help.

Llwyddiant eto i'r” Swing Boys”

Ar ôl bron i dri mis o beidio a mynd y tu allan o'r tŷ ers i ni symud i'r pentref roedd yn hyfryd cael mynd i weld yr uchod yn y Neuadd Goffa nos Wener diwethaf. Nid oedd gennym syniad beth i'w ddisgwyl a hynny achos nid oeddem wedi bod yn y math hyn o beth erioed. Ond i chi na fuodd yno fe gollasoch wledd. Roedd popeth yn wych yn enwedig y bwyd a oedd y tu hwnt o flasus. Hefyd r'oeddem yn hapus iawn i weld bod yna ddewis o fwyd llyseuol. Cafodd Phyl hwn ond fel hollysydd cefais i y dewis arall.

Roedd y gerddoriaeth yn dda iawn – nid yn rhy gryf i glywed eich hunan yn meddwl. Roedd ymddangosiad Lou yn wych a hefyd fe wnaethom fwynhau y gerddoriaeth ar y gitar yn ystod bwyta'r cinio.

Gwaetha'r modd ni wnaethom ni ddawnsio ond ni wnaeth hyn amharu ar ein mwynhad. Pleser hefyd oedd gweld y gwisgoedd - ymdrech dda i gyfleu dillad y cyfnod.

Yn gyfangwbl diolch yn fawr i bawb a hoffwn archebu tocynnau ar gyfer yr un nesaf a theimlais fy mod i nól yn y pedwardegau ond heb yr awyrgylch fwglyd.

Angela Bearman, Pantycelyn.

Pwyllgor Rhieni ac Athrawon Ysgol Llanpumsaint

Ffair Nadolig

Cynhaliwyd y Ffair Nadolig Flynyddol ar ddydd Sadwrn Rhagfyr 4ydd 2016. Roedd yna dros 20 o stondinau a hefyd fe gafwyd datganiadau gan blant yr ysgol. – diwrnod llwyddiannus iawn. Diolch i i'r gymuned leol am eu cefnogaeth i'r ffair hon yn flynyddol sydd yn awr yn rhan o galendr codi arian tuag at yr ysgol.

Digwyddiadau yn y dyfodol

Ffair Haf. Cynhelir hon eleni yn yr ysgol i gydfynd a'r Diwrnod Agored . Fe fydd digon o bethau i'ch diddanu ac fe'i cynhelir ym mis Mehefin, y dyddiad i'w benderfynnu eto. Talwch sylw am y manylion yn y rhifyn nesaf o Lais y Pentref.

Noson gan “This River”

Gobeithir cael noson gan yr uchod eto eleni ar ôl y llwyddiant ysgubol y llynedd. Fe fydd y dyddiad yn cael ei hysbysebu yn y rhifyn nesaf o Lais y Pentref.

Os ydych yn siopa ar y we gallwch chi nawr helpu i godi arian tuag at yr ysgol drwy gofresri ar www.easyfunding.org.uk/causes/LLanpumsaintPTA neu cysylltu a Emma Brown am y linc.

Os oes unrhyw un yn y gymuned leol sydd yn gallu noddri drwy eu gwaith neu unrhyw ffordd arall a fyddech cystal a chysylltu a Becky James ar 01267 253560

Curiad Calon Llanpumsaint

Roedd o fis Ionawr hyd at fis Mai 2016 yn gyfnod prysur iawn i ein grwp bach gyda boreau coffi, digwyddiadau a chreu ymwybyddiaeth o'r angen i gael difribliwr yn y gymuned leol.

Cawsom gefnogaeth wych gan y gymuned a llwyddon ni i godi digon a arian i brynu y difribliwr cyntaf llawer ynghynt na'r disgwyl. Cafodd hwn ei ddadorchuddio tu allan i'r Neuadd Goffa ar Fai 7 2016. Y bwriad yn awr yw i brynu rhagor i'r pentref a'r ardal o amgylch.

Nid oes cymaint o bwyslais wedi bod ar godi arian ers mis Mai ond ym mis Medi fe gawsom newyddion da sef ein bod yn medru ceisio cael nawdd oddiwrth y "Big Lottery Fund" Felly llenwyd y ffurflenni gyda'r gobaith o gael llwyddiant.

Pleser yn awr i'w dweud ein bod wedi bod yn llwyddiannus ac wedi cael addewid am £4050.00 Wrth hyn fe fyddwn yn awr yn medru prynu 3 didfribliwr arall a hefyd cypyrddau i'w hamddiffyn. Gosodir rhain yn Nebo, Ffynnonhenri a Llanpumsaint.

Cynhelir ein Cyfarfod Blynyddol ar Chwefror 28 2017 am 7.30 y.h. yn y Neuadd Goffa. Croeso cynnes i bawb ac yn enwedig y rhai sydd a diddordeb i ymuno a'r grwp bach.

Diolch eto am eich cefnogaeth.

A ydych yn aros am Fandlydan gyflym? Peidiwch dal eich anad!!!

Mae Kay, sydd yn arbenigo mewn band-lydan, wedi rhoi gwybodaeth ar y cynnydd, neu dim cynnydd o sefydlu ffibr i ardal Llanpumsaint. Dyma'r diweddera' oddiwrth susi.marston@bt.com

Mae'r tîm yn gweithio ar waith uniadau ar gyfer y strwythur hyn. Mae hyn yn cael sylw blaenllaw gan "Openreach". Rydyn yn rhoi y wybodaeth orau sydd gennym ac hefyd mae'r newidiadau i'r dyddiadau yn rhwysredig iawn ond hoffem dynnu eich sylw at y ffaith nad ydym o dan unrhyw rwymedigaith i gyflawni y gwaith yma i'r gymuned erbyn dyddiad penodol. Mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen yn yr ardal ond falle nid gan beiranyddion "Openreach" – mae peth o'r gwaith yn cael ei gyflawni gan gontractwyr eraill.

Ni fyddwch yn gweld unrhyw weithgaredd ar bwys y cabinet achos ni fydd cabinet ffibr (DSLAM) yn cael ei sefydlu fel ffibr nes bod (FTTP) yn cael ei leoli.

Gallaf eich sicrhau bod "Openreach" yn gwneud pob ymdrech i orffen y gwaith cyn gynted a phosibl.

Roedd addewidion BT i orffen y gwaith yn 2016 ddim wedi cael ei anrhydeddu ac y mae'n bur debyg nad oes dyddiad penodol i gwblhau y gwaith yn Llanpumsaint yn y dyfodol agos.

Clwb Cerdded Llanpumsaint

Bydd y teithiau ym mis Chwefror a Mawrth yn dechrau yn y bore ac wrth hyn fe allwch chi ddod nôl i weld y gemau rygbi.

Ar ddydd Sadwrn Chwefror 11 2017 byddwn yn dechrau am 10.00y.b. o Lanpumsaint, dros y llwybrau i Nebo, lawr i Rheiffordd Gwili ac i Neuadd Bronwydd. Wedyn fe fydd bwyd ar gael yn Nhafarn Nantgelynen. A fydddech cystal a parcio eich ceir ym maes parcio y Neuadd Goffa ac ar ôl gorffen fe wnawn yn siwr eich bod yn cael trafndiaeth i ddod nôl i Lanpumsaint. A fyddch cystal a dod ac offer gyda chi rhag ofn y bydd rhwystrau ar y llwybrau.

Bydd ein taith ym mis Mawrth ar ddydd Sadwrn Mawrth 11 2017 ac yn dechrau o'r Ganolfan Hamdden yng Nghaerfyrddin am 10.00 y..b. Fe fydd y rhan fwyaf o'r daith ar lwybr caled o amgylch Caerfyrddin. Os na fydd hi yn rhy wlyb falle wnewn i fentro i gerdded drwy rhai coedwigoedd, Fe fydd y daith yn cymeryd o amgylch 2 awr.

Ym mis Ebrill fe fyddwn yn troi ein golygon taug at yr arfordir, sef Llwyndafydd i Gwmtydi. Os am ragor o fanylion ewch i'n gweplyfr.

Mae croeso i bawb ymuno gyda ni. Rydym yn grwp cyfeillgar iawn ac yn cerdded ar gyflymdra sydd yn siwtio pawb. Os am ragor o fanylion cysylltwch a Carolyn Smethurst ar 01267 253308

Mae'r Gwanwyn ar y ffordd

Mae mis Chwefror yn gallu bod yn fis diflas a llwydaidd ond edrychwch ar yr adar. Maent yn barod yn edrych yn fwy disglair a hapusach. Mae gwahanol fathau o adar yn cadw swm o'n hamgylch fel, y gigfran, titw, telor y cnau, cnocell y coed, bronfraith heb anghofio'r robin goch. Tybed a ydych wedi sylwi bod swm yr adar wedi cynyddu ers y Nadolig ac ambell waith yn distewi pan fydd y tywydd yn rhewllyd. Ond pan fydd y tywydd yn cynhesu mae'r swm yn cynyddu eto. Dyma'r amser o'r flwyddyn sydd yn eiddo i'r adar sydd yn aros yma dros y gaeaf. Rhain sydd yn cael y siawns i gael y pryf cyntaf a hefyd y lle gorau i adeiladu eu nythoedd cyn i'r lleill gyrraedd ym mis Ebrill i lenwi y coedwigoedd a'r cloddiau gyda eu sain fendigedig.

Ann Pettitt

Gofal Traed

Dyma ddydiadau y clinig nesaf o 11.00y.b. hyd 4.00y.p, Dydd Mercher Mawrth 8, Ebrill 19
Dylai cleifion newydd gysylltu a Gary Robinson yn ystod yr wythnos rhwng 6 a 8 y.h. ar 07789 344488 fel y dylai cleifion cyfredol sydd yn dymuno canslo eu hapwynytiadau. (gofynnir am rybudd o leiaf 24 awr, plis)

Clwb Rotari Caerfyrddin

I chi sydd yn byw yn yr ardal ac yn hoffi cwis, mae y clwb uchod yn cynnal cwis fawreddog yng Nghlwb Pel-droed, Caerfyrddin ar Fawrth 23 2017 i ddechrau am 7.00 y.h.

Os am ragor o wybodaeth cysylltwch a Sandy Mather ar 01267 253457 neu drwy e-bost ar sandymather@gmail.com

Clwbgwili 60+

Mae'r clwb uchod yn dal i fynd yn gryf iawn gyda rhaglen ddiddorol wedi ei threfnu am 2017. Mae'r aelodau yn gyffrous iawn am y digwyddiadau sydd wedi eu trefnu gyda gwahanol siaradwyr wedi eu dewis a phedwar trip a hefyd y Twrci a Thinsel blynyddol

Dyma fanylion o'r gweithgareddau hyd at fis Mai. Mae'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn Neuadd Bronwydd ar y pedwerydd ddydd Llun ymhob mis am 2.00 y.p.

Ionawr 23 Cyfarfod Siaradwr Mr Jerney John
Chwefror 27 Cyfarfod Siaradwr Mr Arwyn Thomas
Mawrth 27 Arddangosiad gan Mr Gareth Richards
Ebrill 24 Cyfarfod Siaradwr Mr Frank Barnett
Mai 22 Cyfarfod Siaradwr Mrs Betty Davies

Ar ddydd Mercher, Ebrill 19 mae trip wedi ei drefnu i'r Mint Brenhinol a Maenor Llangaeach Fawr. Ar Fai 18 mae'r clwb yn cynllunio i fynd am dri diwrnod i ymweld a "Ironbridge" gyda llawer o weithgareddau eraill yn ystod y cyfnod.

Os am ragor o wybodaeth cysylltwch a Val Giles, Ysgrifenydded y clwb ar 01267 281194

Clwb Cinio Tafarn y Rheilffordd – nawr Clwb Swper Tafarn y Rheilffordd

Rydym wedi cwrdd yn gyson bob mis ar yr ail ddydd Mercher ymhob mis am ginio ond nawr mae newidiaeth ar y gweill a byddwn yn cwrdd ar nos Fercher a'i alw yn Glwb Swper a hyn o Chwefror 8ed ymlaen a hynny am 6.00 y.h.

Mae croeso i aelodau newydd a does dim tál aelodaeth. Rydym yn griw hapus iawn.

Gobeithir cario ymalen a'r raffl fisol gyda'r elw yn cael ei roi yn y Botel ar y Bar a hynny er lles y Pwyllgor Llës ac Adloniant. Bydd hon yn cael ei hagor yn ystod Taith Sion Corn sydd yn cael ei chynnal bob blwyddyn.

Mae rhyddid i chi ddewis unrhywbeth o fwydlen y dafarn gan gynnwys y Stéc a Sglodion i ddau a botel o win sydd ar gael bob nos Fercher.

Ond mae yn ofynnol i chi gysylltu a Jane gyda'ch archeb erbyn y Sadwrn cyn dyddiad y swper.

Os hoffech ddod cysylltwch a Jane neu Nick yn y dafarn (253643) neu Derick Lock (2535245)

Clwb 100 Llanpumsaint

Mewn cyfarfod a gynhaliwyd yn ddiweddar tynnwyd y rhifau lwcus o'r uchod am fis Ionawr.

Dyma'r manylion:-

1af £20 Rhif 17 Mo Jameson
2ail £10 Rhif 6 Marlene Wareham
3ydd £5 Rhif 52 Gordon a Barbara Cable
3ydd £5 Rhif 16 Bob Jameson

Dyma'r tynniad olaf am 2016/17

Does dim tynniad ym mis Chwefror gan fydd y trysorydd yn paratoi y Fantolen Ariannol ac hefyd yn erbyn eich aelodaeth am y flwyddyn nesaf. (£12 y flwyddyn)

Ar ran y pwyllgor hoffwn ddiolch i bawb am eu cefnogaeth yn ystod 2016/17.

Mae croeso i aelodau newydd ac os oes diddordeb cysylltwch a Derick Lock ar 01267 253524am fanylion.

Clwb Bowlio Llanpumsaint a Nebo.

Ar hyn o bryd rydym ni hanner ffordd drwy ein tymor ac yn y 3ydd safle yn y gynghrair wedi ennill 12 gém, colli 3 a thair gém yn gyfartal.

Yn ein gém gartref olaf fe lwyddon ni i drechu tîm Salem sydd yn gyntaf yn y gynghrair o 7 i 1 – dyma'r tro cyntaf iddyn nhw gollu yn ystod y tymor.

Ar hyn o bryd mae 12 oedolyn a phedwar aelod iau yn y clwb. Mae croeso bob amser i aelodau newydd hyd yn oed os nad ydych wedi chwarae o'r blaen. Mae gennym hyfforddwyr profiadol wrth law i'ch helpu a offer o bob maent i chi gael ymarfer.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch a Alan Dentry, Cadeirydd ar 253549 neu Derick Lock, Ysgrifennydd ar 253524.

Pwyllgor Llës ac Adloniant

Fe fu'r tywydd yn garedig iawn yn ystod Paréd Blynyddol Sion Corn y llynedd. Cafwyd yateb teilwng iawn gyda bron 60 o bobl wedi dod ynghyd.

Yr elusen ddewisiadol am 2016 oedd Bád Achub Glan y fferi a phleser oedd gweld chwech ohonynt yn bresennol ar y dydd.

Gan gynnwys y "Botel yn y Bar" yn nhafarn y Rheilffordd pleser mawr fydd trosgwlyddo sic o £800 i'r elusen a fydd yn cael ei ddefnyddio tuag at hofrenfad fach i helpu i achub bywydau ar yr afon.

Hoffem fel pwyllgor ddiolch i'r canlynnol am eu cefnogaeth yn flynyddol:-

Sion Corn, ei yrrwr a'i gynorthwywyr.

Jane a Nick yn nhafarn y Rheilffordd am eu haelioni a'i cydweithrediad bob amser.

Aelodau Clwb Cinio Tafarfn y Rheilffordd sydd dros y blynyddoedd wedi rhoi arian a gasglwyd yn y botel yn y bar sef elw y raffl fisol.

Ann Wyke a Carolyn Smethurst am ddarparu ymborth i bawb yn ystod y paréd

I'r gweddill ffyddlon sydd yn cefnogi y paréd yn flynyddol drwy bob tywydd.

Gobeithir trosgwlyddo y sic o £800 i'r Bád Achub cyn bo hir ac hoffai unrhyw un fod yn bresennol cysylltwch a'r Ysgrifennydd sef Derick Lock ar 253524

Ar hyn o bryd nid ydym fel pwyllgor wedi penderfynnu ar yr elusen ddewisiedig ar gyfer 2017, felly os oes gennych syniadau cysylltwch a'r ysgrifennydd.

Dyddiadau i'ch Dyddiaduron

Diwrnod Hwyl Sadwrn Mai 6 2017

Swper Elusennol Nos Fawrth Medi 26 2017

Manylion pellach i ddilyn.

Cymdeithas Rhandiroedd Llanpumsaint.

Beth dych chi'n wybod am eich wniwys? Hoffech chi ddysgu rhagor, os hynny pam na wnewch ymuno a ni. Fel aelod mae'n bosibl i dyfu fwy o gennin na phlymiwr dibrofiad.

Grwp cyfeillgar iawn i ni sydd yn hoffi garddio gyda phawb yn cael gwely eu hunan (nid i gysgu) Hefyd mae gennym dŷ gwyr enfawr a llawer twnel ar y safle. Nid ydym yn gystadleuol am y llyisiau mwyaf a.y.b. ond mae ein haelodau sydd o wahanol safonau bob amser yn barod i helpu os bydd yna broblem.

Cynhelir ein Cyfarfod Blynyddol ar y safle ar fore Sadwrn Chwefror 25ain am 10.30 y.b. pan fydd yr aelodau presennol yn cofrestru am y flwyddyn sydd i ddod felly pam na ddewch chi i weld a fydddech yn hoffi ymuno a ni neu i gael rhagor o wybodaeth. Pris aelodaeth yw £35 am y flwyddyn gyntaf a wedyn £25 y flwyddyn. Nid yw oedran yn gwneud dim gwahaniaeth – fe fyddwn yn edrych ymlaen i'ch gweld.

Os nad ydych yn gwybod, mae'r rhandiroedd gyferbyn a Thafarn y Rheiffordd (trowch i'r dde) Os hoffech wneud unrhyw ymholiadau cysylltwch a Keith (253375) neu Ray (253157) fe fyddant yn fwy na pharod i'ch helpu.

Oes unrhyw un a diddoredeb mewn Myfyrdod?

Mae myfyrdod gyda eraill yn ymarfer rheolaidd. Rydw i a diddoredeb mewn ffurfio grwp anffurfiol am nosweithiau o fyfyrdod. Y syniad yw i'w wneud gyda eraill mewn awyrgylch anffurfiol ar nosweithau achlysurol.

Cysylltwch a Pete ar 07769 580040

Mae Larymau Mwg Yn Achub Bywydau

A oeddech chi'n gwybod?

- Rydych ddwywaith yn fwy tebygol o farw mewn tân os nad oes genych larwm myg sy'n gweithio
- Mae 18 bobl yn marw bob blwyddyn oherwydd nad oedd y batri yn eu larwm myg yn gweithio neu nad oedd batri wedi ei roi yn y larwm
- Mae dros hanner y tanau mewn cartrefi yn cael eu hachosi gan ddamweiniau coginio
- Caiff tri than y dydd eu cychwyn gan ganhwyllau
- Bob tridiau mae rhywun yn marw mewn tân a achoswyd gan sigarét
- Mae offer trydan diffygiol (dyfeisiau, gwifrau a socedi sydd wedi eu gorlwytho) yn achosi nifer o danau mewn tai ledled y wlad bob blwyddyn

Am archwiliad diogelwch rhag tân yn y cartref am ddim galwch 01267 262617 or 0800 169 1234

A fyddai EIRIOL o help i chi?

A oes gyda chi broblem iechyd meddwl neu a ydych chi yn gofalu am rhywun sydd a'r broblem hyn?

A oes gyda chi gonsyrn am y gefnogaeth rydych yn ei dderbynl gan yr Awdurdod Iechyd neu'r Cyngor?

A fyddech eisiau cymorth i ddeall beth yw eich hawliau a'ch dewisiadau?

Ers 2004 mae EIRIOL wedi cefnogi prosiectau i gynorthwyo oedolion sydd a phroblemau iechyd meddwl a hefyd wedi cefnogi ffrindiau a theluoedd sydd yn gofalu am y rhain. Elusen Annibynnol ydyn ni, felly nid yn rhan o'r Gwasanaeth Iechyd, Bwrdd Iechyd nac Awdurdodau Lleol. Rydyn ni yn helpu pobl i ddelio gyda eu gofidiau neu gwynion sydd gyda nhw am y gofal y maent yn derbyn. Mae'r gwasanaeth yn rhad ond ond r'ydyn yn cael ein noddi yn rhannol gan y cyngor a hefyd dibynnu ar grantiau a rhoddion gan y cyhoedd.

Nid cyfreithwyr ydyn ni ond ein pwrpas yw i gydweithio gyda ein cleientiaid i'w galluogi i wneud y dewisiadau cywir a hefyd ei hawliau ac wrth hyn gwella eu cyflwr a'u teuluoedd. Hefyd cefnogi pobl sydd yn methu siarad dros eu hunain ac wrth hyn rhoi llais, dewis a rheolaeth iddynt dros eu penderfyniadau. Fe fyddwn yn mynd i gyfarfodydd ar eu rhan, ysgrifennu llythyron, siarad ar y ffôn neu eu helpu i gysylltu a gwasanaethau eraill.

Ein cleientiaid yw calon ein gwaith. Rydym yma i'w helpu i gael pob gwasanaeth y teimlant y bod arnynt eu hangen. Rydym yn gweithio gyda Awdurdod Iechyd Hywel Dda, Awdurdodau lleol a unrhyw fudiad i helpu ein cleientiaid i gael y sylw sydd yn ddyledus iddynt. Gweithiwn bob amser gyda ein cleientiaid i ddelio yn fwy hyderus gyda phob sefyllfa fel bydd yr angen.

Dros y ddeuddeg blynedd ddiwetha dim ond nawdd i weithio yn Sir Gar yr ydyn wedi derbyn gwaetha'r modd ond diolch am nawdd fychan a ddaeth i law fe agoron ni wasanaeth bach yng Ngheredigion. Mae prosiect sef Prosiect Kinora ar agor un diwrnod yr wythnos yn Aberteifi ond os na ddaw rhagor o nawdd i law bydd rhaid ei gau ddiwedd mis Rhagfyr. Dros y ddwy flynedd ddiwetha yr ydym wedi cynnig llawer o gyrsiau i gynorthwyo teuluoedd a phobl sydd a phroblem iechyd meddwl. Yn gyfredol r'ydym yn cydweithio gyda'r awdurdod lleol ar gwrs i ddysgu pobl sut i dynnu sylw at achosion posibl o gam-drin pobl agored i niwed.

Rydym yn elusen barchus ac enwog. Gweithiwn bob amser i dynnu sylw at ein gwasanaethau. Byddwn yn presenoli ein hunain mewn cyfarfodydd sydd yn ymwneud o Iechyd Meddwl yn Sir Gar a Cheredigion. Mae ein gwaith hefyd yn cynnwys ymateb i ymgynghoriadau i Lywodraeth Cymru a chefnogi pob ymchwil a gymerir gan Brifysgolion Abertawe ac Aberystwyth a hefyd Iechyd Cyhoeddus Cymru

Os hoffai unrhyw un dderbyn o'n gwasanaeth gallwch gysylltu a ni ar y ffôn, e-bost neu ar ein tudalen ar y we. Gall gwasanaethau proffesiynol hefyd gysylltu a ni ond mae yn ofynnol iddynt gael caniatad eu cleientiaid.

Ffôn: 01267 231122 neru E-bost:- eiriol@eiriol.org.uk www.eiriol.org.uk

Sadwrn Hwyl

Cymhelir yr uchod as dydd Sadwrn Mai 6 2017. Yn ystod y prynhawn fe fydd y cnalynnol yn cael eu cynnal:-

Rhasus Hwyaidd o dan ofal Capel Nebo

Rhasus moch

Rhostio mochyn

Yn y nos fe fydd adloniant i'r teulu gyda "Theyrned i Tina Turner" a phris y tocynnau fydd £8 i oedolion a £2 i blant.

Fe fydd rhagor o fanylion yn y rhifyn nesaf o Lais y Pentref.

Gofal a Thrwsio yn helpu person lleol

Corff "nad yw'n gwneud elw" yw **Gofal a Thrwsio Sir Gaerfyrddin**, a'i bwrpas yw i rhoi cyngor a chymorth i bobl hŷn (60 +) sy'n berchen ar dŷ neu'n denant preifat, i barhau i fyw'n ddiogel, yn gynnes ac yn annibynnol yn eu cartrefi.

Maent yn gwneud hyn trwy drefnu atgyweirion neu addasiadau a helpu gyda cheisiadau am grantiau a ffynonellau ariannu eraill. Gallai'r gwaith gynnwys atgywerion bach (trwsio tap sy'n diferu, gosod canllaw, neu ffitio clô newydd) a gweithfeydd mwy o faint fel dylunio ac adeiladu ystafell ymolchi ar gyfer person anabl.

Yn ddiweddar, cysylltodd Mrs Sandy Mather o Lanpumpsaint â'r Asiantaeth. Rhoddodd yr Asiantaeth enw adeiladwr dibynwy i Mrs Mather. Cytunwyd ar gost, a chyn bo hir, dechreuodd y gwaith. Wedi cwblhau'r gwaith, dywedodd Mrs Mather *"Nad oes modd ddweud faint o dawlch meddwl mae gwneud y gwaith wedi rhoi i mi. Rwy nawr yn teimlo'n fwy diogel"*

I drefnu ymweliad ich cartref, cysylltwch â Gofal a Thrwsio ar 0333 111333 (cyfraddau lleol) neu trwy e-bostio careandrepair@cccpartners.org.uk. Mae'r asesiad yn rhad ac am ddim heb unrhyw rhwymedigaeth.

Cymdeithas Dewinwyr Gorllewin Cymru

Dydd Sul Ionawr 22 2017 Michelle Prior

Dydd Sul Chwefror 26 2017 Robin Heath

Dydd Sul Mawrth 26 2017 Cyfarfod Blynyddol

Dydd Sul Ebrill 23 2017 Alanna Moore

Mae darogan yn grefft ddefnyddiol a diddorol, gall bron unrhyw un eu dysgu. Dywed ei bod yn deillio o'r Aifft neu hyd yn oed ynghynt mewn hanes. Mae nifer o gwmnïau yn defnyddio donai rhai daroganwyr profiadol i chwilio am ddŵr, mwynau, olew, ceblau trydan a.y.y.b. Mae rhai yn gwirio am straen daearegol yn eu hamgylchedd, cred bersonol yw hyn sydd heb gael ei brofi yn wyddonol hyd yn hyn.

Pam na ddewch chi i weld dros eich hunan? Dewch i ymuno a ni yn Neuadd Bronwydd am 1.45y.p. Pris mynediad yw £4 y person gan gynnwys paned o de a bisgedi. Does dim eisiau offer, dewch a'ch hunan.

Am wybodaeth pellach cysylltwch a Sandy ar 01267 253547

Atgofion Eira mawr 1947

Naw blwydd oed o'n ni ac yn cerdded o fferm Pantglas i Ysgol Llanpumsaint bob dydd. Lan rhiw Graig heibio Bryncene a Ffynnonfelen cyn cyrraedd gwastadedd sgwâr Cnwycpistyll, ac wedyn oledd bob cam i lawr. Yn ôl y rheolau newydd wedi'r Rhyfel, byddai pob plentyn yn byw dros dair milltir o'r ysgol yn cael eu cario. 'Roedd crwt y Wern, nes draw na'r Graig, yn sticio dau fis arnaf yn cerdded, mas o ffenest ôl taci Dai Bedw, wrth iddo wibio heibio lan y rhiw serth. Ond na fe, ces i feic o'i flaen e' ac mi gollodd e' lot o sbri cymdeithasol wrth i blant ardal Nebo gerdded gatre. Tase hi'n bwrw glaw bydde John Williams y postman yn garedig iawn, miwn a ni i gefen y fan, gan ofalu nad oedd y traed gwlyb yn trochi'r llythyron. A chafodd Alfie'r Wern erioed y wefr o ambell reid mewn lori lath.

Gall atgofion plentyndod am y tywydd fod yn hynod anghywir, dewiswn ddychmygu hafau hirfelyn heulog a gaeafau iachus o rew sych. Dewis y cof yn aml yw anwybyddu'r holl law amser cyneuaf a thywydd tywyll diflas Rhagfyr ac Ionawr. Ond gallaf gofio 1947 yn glir iawn. Bu'n aeaf caled o rew ag eira am gyfnod hir, ac yna ym Mis Mawrth daeth storom enbyd o eira, i'w dilyn gan wynt cryf o'r dwyrain wnaeth chwythu'r eira i bob twll a chornel. Hynod oedd edrych ar gaeau glan gwyrdd ond heolydd wedi diflannu dan flanced wen enfawr, a tho ambell dy yn pipo mas o'r lluwchfeydd rhewllyd. Ymhen amser daeth hen gopi llaith o'r Journal i law o rwle, yn son am longau'n cario bara i Bentywyn o'r môr, ac am ddyn wedi ei achub o ben coeden fawr ger Synod Inn.

Dim byd yn symud, nes i Cyril George Brynawel a'r unig lorri yn yr ardal yn arwain bydyn o ddynion a rhofiau i ddechrau clirio. Rhwng Rhiw Graig a sgwâr Cnwycpistyll, (cyffordd y ffordd i Nebo), diflannodd yr hewl yn llwyr a gorchuddiwyd y cloddie'n gyfangwbl. 'Radeg hynny 'doedd na'm haradr eira na'r un Jac Codi Baw wedi eu geni, felly nerth braich a rhaw ag un lorri amdani! Gan i'r her fod mor enfawr penderfynwyd torri tocyn mawr drwy'r gacen wen, digon i ganiatáu un cerbyd yn unig drwyddo. Rhaid oedd rhofio a rhofio bob cam lawr i gyffordd y Graig lle'r oedd Jennie yn berwi'r tecyl te. Dros wythnos flinedig wedyn gorchfygwyd y lluwch enfawr oedd wedi claddi popeth ger Plasybig, Bronwydd. Hwre! O'r diwedd gallai rhywun fynd i dre Caerfyrddin. O'dd un dyn bach wedi gwrthod helpi'r clirio. Fe oedd y cynta' i fynd drwyddo ar ei fotobeic, ond faddeuodd neb byth iddo!

Daw golygfa hynod arall i'r cof, gweld fy Wncwl Dai Bethoron yn cerdded yn hamddenol dry borfa las caeau Ffynnonfelen i bigo bara lan wrth fy mam ym Mhantglas. O'dd dim hewl i gal bellach! Gan fod cymdeithas cefn gwlad i raddau helaeth yn hunan cynhaliol bryd hynny 'doedd na'm perygl i neb lwgu. Dychmygwch yr olygfa pe bae hyn yn digwydd heddiw yn 2107; dwy neu dair hofrennydd a chriwiau teledu, haid o Jacs Codi Baw gyda rhai ohonynt yn cario nwyddau o'r archfarchnadoedd, a Facebook a Thrydar fel dau dderyn du.

Unwaith torrwyd sleisen o ffordd drwyddo a minnau bellach wedi hen flino ar ramant peli eira, dyma benderfynu ar antur fawr ac aneli am gerdded i'r Ysgol. Profodd y tamed hewl yn eithriadol o lithrig a'r perygl mwya' yn dod o'r talpiau mawr o eira rhewllyd yn llithro'n annisgwyl o'r nen. Felly penderfynais gerdded ar ben y lluwchfeydd ar dop y cloddiau, gan chwarae a'r gwifrau ffon rhwng fy mysedd. Jobyn da nad oedd trydan wedi cyrraedd yr ardal bryd hynny! Wedi cyrraedd cefais fy ystafell ddisbarth bron yn wag ar wahân i rai o blant y pentref. Rhyddhawyd ni'n gynnar a dyma gychwyn ar daith unig lan Rhyw Cwppers tua Nebo. Daeth neges wedyn o'r Prifathro Mr Johns, "*Does dim rhaid i chi hala fe Mrs Thomas!*".

Atebodd fy Mam "*Fi ffili stopo fe! Mae'n mynnu mynd!*". Yr hyn nad oedd y ddau wedi deall oedd bod 'na bron ddim cystadleuaeth bellach am lyfrau Llyfrgell yr Ysgol, a minnau a rhwydd hynt i ddewis beth fynwn.

Arwyn 2017

Village Voice February 2017

Copy Date for next Edition 25th March 2017

Village Voice is published by Llanpumsaint Community Information Exchange
www.llanpumsaint.org.uk email info@llanpumsaint.org.uk. Please send items to
info@llanpumsaint.org.uk or post to Bodran Felin, Llanpumsaint SA33 6BY

What's on in the Village – please put these dates in your diary

Every Wednesday Steak Night at the Railway Inn 01267 253643

Every Thursday Roast Dinner Night at the Railway Inn 01267 253643

Every Monday and Thursday from 1 September 7.30 – 9.30 Bowls at Memorial Hall

Every Thursday 2.00 - 3.00 Fitness for 50+ Ladies Bronwydd Hall

February 7 Tuesday 8.00 Llanpumsaint Community Council Memorial Hall

February 8 Wednesday 6.00 Supper Club Railway Inn – 253643 to book

February 11 Saturday 10.00 Walk from Llanpumsaint to Bronwydd via Nebo and Bettws

February 21 Tuesday 7.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn

February 25 Saturday 11.00 Agm Llanpumsaint Allotment Society

February 26 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Bronwydd Hall

February 26 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn

February 27 Monday 2.00 60+ Club Bronwydd Hall

February 28 Tuesday 7.30 AGM Llanpumsaint Heartbeat in Memorial Hall

March 2 Thursday 8.00 AGM for LCIE and Village Voice, Memorial Hall – all welcome

March 7 Tuesday 8.00 Llanpumsaint Community Council Memorial Hall

March 8 Wednesday 11.00 – 4.00 Foot Clinic Memorial Hall

March 8 Wednesday 6.00 Supper Club Railway Inn – 253643 to book

March 11 Saturday 10.00 Walk in Carmarthen – meet at Leisure Centre

March 21 Tuesday 7.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn

March 23 Thursday 7.00 Rotary Quiz Carmarthen Football Club

March 26 Sunday 1.45 West Wales Dowsers AGM Bronwydd Hall

March 26 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn

March 27 Monday 2.00 60+ Club Bronwydd Hall

April 4 Tuesday 8.00 Llanpumsaint Community Council Memorial Hall

April 12 Wednesday 6.00 Supper Club Railway Inn – 253643 to book

April 18 Tuesday 7.00 Curry and Quiz £5 per head Railway Inn

April 19 Wednesday 60+ Club Day Trip to Royal Mint

April 19 Wednesday 11.00 – 4.00 Foot Clinic Memorial Hall

April 23 Sunday 1.45 West Wales Dowers AGM Bronwydd Hall

April 23 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn

April 24 Monday 2.00 60+ Club Bronwydd Hall

May 6 Saturday Fun Day Afternoon and evening entertainment – more details in April Village Voice

May 22 Monday 2.00 60+ Club Bronwydd Hall

June 11 Saturday 11.00 Open Farm Sunday Esgair

Llanpumsaint and Ffynnonhenry Memorial Hall

To book phone Derick Lock on 253524

May Fun Day will be on Saturday 6th May. During the Afternoon we will have the Nebo Duck Race. Our second Pig Racing Event, and the Hog Roast. The evening entertainment for all the family is a Tina Turner Tribute, tickets for adults will be £8, and for children £2.

Further details will appear in April Village Voice – please put the date in your diary now.

LLANPUMSAINT HEARTBEAT UPDATE

From January 2016 until May 2016 was a very busy time for our small group, with coffee mornings, events and generally raising awareness for the need for defibrillators to be made available within our community. With the fantastic support from the community we surpassed our expectations and raised the money for the first defibrillator quicker than we had expected. This was unveiled at the Memorial Hall on the 7th May at the village fun day.

Our aim from the beginning was to purchase more defibrillators in the village and the wider community. Since May the group has eased up on it's fundraising events, mainly to refocus our objectives and discuss our options going forward. In September we found that possible funding could be made available from the "Big Lottery Fund, Awards for All". So over the last four months we have been making our case and completing forms with the hope that we would be successful.

I am pleased to say that we have been successful and the "Big Lottery Fund," have recently confirmed our grant offer and are awarding Llanpumsaint Heartbeat £4050, which will fund the purchase of a further three defibrillators and protective external cabinets. These defibrillators are to be sited in Nebo, Ffynnonhenry and Llanpumsaint.

Our AGM will be on 28th February, 7.30pm, in the Memorial Hall – all welcome, and we would welcome new members to our small committee – all welcome.

Thank you once again for your continued support. Mike Poston

Spring is sprung!

February can be a dreary, grey month, but let's look at the birds. They are already looking brighter, sharper, perkier. If you hear ravens cronking above, look up – you may see their courtship flight, when the male does a sudden downwards dive with back-flip. Great tits are singing their tee-tew, tee-tew, spring song, woodpeckers are drumming already. They don't do it to find food, they do it purely to say "Here I am, come and find me" to a potential mate. Nuthatches are also vocal, they sound "quilt, quilt" high in the branches. In fact, the birdsong has been building steadily since Christmas, slowing down when it's frosty, then accelerating when it gets warmer. I can hear mistle thrushes, robins, dunnocks, blue, great and long-tailed tits, but no blackbird or chaffinch yet. Birds are much easier to identify by their song than trying to spot them flitting through the branches – there are plenty of websites to help. This is the time of year that belongs to the birds that stay the winter with us. They have the chance, when the first insects emerge, to find a mate, find a nest site (getting harder every year!) and rear some chicks before the spring migrants arrive in April, filling the woods and hedgerows with joyous song.

Ann Pettitt

Clwb Cerdded Llanpumsaint Walkers Club

